

Craffu ar y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft

Ebrill 2022

1. Mae Deddf Pysgodfeydd 2020 yn nodi fframwaith ar gyfer polisi pysgota'r DU. Mae'r Ddeddf yn nodi wyth amcan pysgodfeydd sydd â'r nod o gefnogi diwydiant pysgota a fydd yn gynaliadwy o ran stociau pysgod ac o ran yr amgylchedd ehangach hefyd, i sicrhau bod gan holl gychod pysgota'r DU fynediad cyfartal i ddyfroedd y DU ac i gefnogi buddion economaidd a chymdeithasol pysgota ar gyfer cymunedau. Mae'r polisiau ar gyfer cyflawni'r amcanion hyn i'w gweld yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd.
2. Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd i'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft ar 3 Chwefror. Yn ystod y sesiwn honno, clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd, a chan y sector pysgodfeydd a grwpiau amgylcheddol. Yn ogystal â hynny, fe ofynnodd yr Aelodau gwestiynau ar y Cyd-ddatganiad drafft a'r Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd yn eu sesiwn gyda'r Gweinidog ar 17 Mawrth.
3. Ar yr adeg yr oedd y Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth ar y Cyd-Ddatganiad Pysgodfeydd Drafft, nid oedd y Fframwaith Cyffredin Dros Dro ar gyfer Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd cysylltiedig (sy'n cynnwys y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth dros dro rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru, ac Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon (DAERA)) wedi cael ei gyhoeddi. Cyhoeddwyd y Fframwaith Cyffredin Dros Dro hwnnw ar 17 Chwefror, ac mae'r adroddiad hwn yn cyffwrdd â'r materion a godir ynddo.
4. Nid oedd Jon Parker, sy'n cynrychioli Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ac Aquaculture Industry Wales, yn gallu cymryd rhan yn y cyfarfod ar 3 Chwefror ac felly cyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig ar ôl y sesiwn.



Diffyg uchelgais

- 5.** Gwnaeth Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd argymhelliad y dylai'r Cyd-ddatganiad "gynnwys cerrig milltir a thargedau uchelgeisiol." Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhellion hyn, gan nodi eu bod yn "ymrwymedig o hyd i bennu cerrig milltir a gosodargedau penodol ac uchelgeisiol, lle y bo'n briodol, ac ar ôl ystyried gyda rhanddeiliaid."
- 6.** Aeth Emily Williams o RSPB Cymru â'r Aelodau drwy gefndir yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig blaenorol. Dywedodd wrth yr Aelodau fod y Senedd flaenorol wedi craffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer dau¹ Fil Pysgodfeydd a nodwyd mai problem fwyaf y Biliau oedd y diffyg manylder a'r diffyg dyletswyddau, y diffyg cerrig milltir, y diffyg terfynau amser. Eglurodd fod y Senedd wedi cael sicrwydd yn gyson y byddai'r Cyd-ddatganiad yn cynnwys rhagor o fanylion, ac oherwydd y sicrwydd hwnnw fe roddodd y Senedd gydsyniad i'r ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, dywedodd Emily wrth yr Aelodau: "*now we're looking at the joint fisheries statement and, again, this is very high level*".
- 7.** Crynhodd Emily y cyfan drwy ddweud:

"It reminds me of the White Paper that came before the Fisheries Bill. So, we had a high-level policy White Paper; we had the two draft versions of the Bills; we had the 'Brexit and our Seas' Welsh fisheries policy consultation, which nothing ever came of; we had the marine plan; the UK marine strategy, and all have fisheries policy aspirations in them and, again, we're being presented with another high-level policy document that says a lot about what they want to do, but not about how they're going to do it. This, for me, is one of the key issues: we need to start moving towards a place of action plans with deadlines and actually start delivering things on the ground, and unfortunately, the JFS just doesn't do that."

- 8.** Mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd yn ofyniad o dan y Ddeddf ac fe'u datblygwyd fel rhan o'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd. Maent yn ddogfennau sy'n canolbwyntio ar stoc penodol, math o bysgota a/neu ardal. Mae'n ofynnol iddynt nodi polisiau penodol i adfer neu gynnal lefelau cynaliadwy o'r stoc. Yn ei ymateb ar ran Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig ac yn rhinwedd ei swydd fel arweinydd datblygu Aquaculture Industry Wales, dywedodd Jon Parker

¹ Cafodd y Bil gwreiddiol ei ollwng oherwydd addoedi San Steffan. Yn dilyn yr etholiad, cyflwynwyd Bil newydd a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol newydd yn y seneddau perthnasol.

wrth y pwyllgor y dylai cerrig milltir a thargedau gael eu nodi'n glir fel bod modd i randdeiliaid ddeall y pwyntiau allweddol lle y byddent efallai am ymgysylltu, yn enwedig o ran y Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd a fydd, fe ddichon, yn cael eu datblygu ar gyfer pysgodfeydd penodol Cymru. Dywedodd hefyd: *"at a minimum, the timetable for the development and sign off of the FMPs should be clearly laid out and open for engagement by interested parties via consultation."*

9. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor nad oedd hi'n meddwl bod diffyg targedau uchelgeisiol yn y Cyd-ddatganiad drafft. Esboniodd fod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn ddogfen bolisi strategol sydd wedi cael ei datblygu ar y cyd, a'i bod yn pennu'r fframwaith a'r cyfeiriad ar gyfer darparu pysgodfeydd cynaliadwy o safon fyd-eang ledled y DU.

10. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y Cyd-ddatganiad drafft yn cynnwys amserlen ar gyfer 43 o gynlluniau rheoli pysgodfeydd, a dywedodd ei bod yn meddwl eu bod yn benodol iawn ac yn uchelgeisiol eu cwmpas. Dywedodd hefyd wrth yr Aelodau ei bod yn bwysig cael y lefel gywir a bod y Cyd-ddatganiad yn *"legally binding, and it commits us to some very important issues."*

11. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn bod diffyg uchelgais yn y Cyd-ddatganiad drafft. Mae'r Aelodau o'r farn bod disgwyliad cyfiawn y byddai'r ddogfen hon yn pennu targedau clir ar gyfer y sector. Mae'r Aelodau'n deall dadl y Gweinidog bod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft yn ddogfen strategol, ond maent yn pryderu bod absenoldeb y targedau disgwylidig yn golygu y bydd y sector yn cael ei adael yn ddigyfeiriad hyd nes y caiff y targedau hynny eu datblygu. Mae'r Aelodau'n cytuno bod angen i'r sector ddechrau symud tuag at gynlluniau gweithredu ond bod hyn yn amhosibl hyd nes y caiff targedau eu pennu.

Recommendation 1. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gwledydd eraill y DU i sicrhau bod targedau uchelgeisiol a phenodol yn cael eu cynnwys yn y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd, gan y bydd hynny yn galluogi cynlluniau gweithredu i gael eu datblygu. Dylai'r targedau gael eu cyd-ddatblygu gyda rhanddeiliaid, yn enwedig sector pysgodfeydd Cymru, a dylid eu dylunio i hybu twf y sector mewn ffordd gynaliadwy.

Casglu data

12. Mae adran 3 o'r Cyd-ddatganiad drafft yn tynnu sylw at ddefnyddio'r dystiolaeth a'r cyngor gwyddonol gorau sydd ar gael, prosesau gwneud penderfyniadau tryloyw, a gweithio mewn partneriaeth, fel egwyddorion craidd a fydd yn sail ar gyfer cyflawni. Parthed rheoli pysgodfeydd a dyframaethu, mae'r ddogfen ymgynghorol yn nodi: *"Ategir hyn gan raglen fonitro a fframwaith cynghori eang a chydgyssylltiedig, a fydd yn cael eu gwella ymhellach gan*

ymchwil". Bydd hyn yn cynnwys defnyddio technolegau megis systemau monitro cychod a Monitro Electronig o Bell (REM), ochr yn ochr â'r canlynol:

"...rhaglenni monitro a goruchwyllo priodol... i ni ddeall yn well effeithiau gweithgareddau pysgota ar yr amgylchedd a'n helpu i gyflawni'r amcanion pysgodfeydd".

13. Croesawyd yr ymrwymiad i ddull gwyddonol o gasglu data, ond codwyd pryderon ynghylch y data a gesglir a chost y gwaith casglu i'r Diwydiant.

14. Gwnaeth Gareth Cunningham o'r Gymdeithas Cadwraeth Forol amlygu problem ynghylch pa rywogaethau fydd yn cael eu monitro, gan ddweud: *"if we're only going to monitor and collect evidence against those fisheries that are either commercially exploited through the current data collection framework or through fisheries management plans, how will we know how other species are faring"*. Gwnaeth Gareth grynhoi'r pryderon hyn fel a ganlyn:

"[the draft JFS] recommends data collection for the fisheries management plans, and it does say, for other species that don't have a fisheries management plan, they will propose them where evidence shows they are required. My question, of course, is: if we have no requirements that gather that data to inform that evidence of whether a fisheries management plan is required, how will we ever know until the point the stock crashes."

15. Clywodd yr Aelodau gan Jim Evans mai ei brif bryder oedd deall y gost sy'n gysylltiedig â'r gwaith casglu tystiolaeth hwnnw a materion adnoddau sy'n ymwneud â llunio polisi yn seiliedig ar y data a gesglir. O ran datblygu polisi ychwanegol o ganlyniad i adael yr UE a'r elfennau deddfwriaethol ychwanegol o hynny, ac o ran y gofynion adnoddau cysylltiedig, ychwanegodd: *"we regularly hear that resources are an issue"* a *"the challenges we've got in terms of data collection are fairly significant"*.

16. Cafodd uwchraddio offer monitro cychod pysgota ei gefnogi yn flaenorol gan gyfraniadau o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Nid yw'n glir a fydd cyllid yn lle'r cyllid hwnnw ar ôl ymadael â'r UE na sut y byddai hynny'n digwydd.

17. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i raglen fonitro eang a chydgyssylltiedig, a bod y ffordd o wella'r broses o gasglu data, meddai, yn mynd i fod yn wirioneddol hanfodol i reolaeth pysgodfeydd

yn y dyfodol, a bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y gwelliannau angenrheidiol i gasglu data.

18. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau y bydd pob cwch pysgota sy'n gweithredu ym mharth Cymru yn defnyddio system monitro cychod. Dywedodd Jim Evans o Gymdeithas Pysgotwyr Cymru wrth yr Aelodau ei fod yn credu y byddai hynny yn hynod werthfawr o ran helpu i fireinio a gwella hyder o ran y data a'r wybodaeth am stociau. Daeth y gorchymyn sy'n cyflwyno'r gofynion hyn i rym ym mis Chwefror 2022.

19. Roedd yr Aelodau'n arbennig o bryderus o glywed am ddolen adborth bosibl yn y cynigion ar gyfer casglu data a monitro lle mae Cynlluniau Rheoli Pysgodfeydd ond yn cael eu datblygu ar gyfer rhywogaethau sydd â data digonol. O ganlyniad i hyn, mae diffyg data yn arwain at ddiffyg Cynllun Rheoli Pysgodfa, a diffyg gofynion casglu data. Mae'r Aelodau o'r farn ei bod yn hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod ystod ehangach o rywogaethau'n cael eu monitro'n ddigonol a bod cynlluniau rheoli pysgodfeydd yn cael eu datblygu.

20. Mae'r Aelodau'n cefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymestyn gofynion y system monitro cychod. Fodd bynnag, mae'r Aelodau'n awyddus i ddeall mwy am y goblygiadau o ran costau ac adnoddau yn y rhaglen gydlynol ar gyfer casglu data.

Recommendation 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau casglu data yn ddigon cynhwysfawr i fonitro poblogaethau ac iechyd ystod ehangach o rywogaethau/stociau pysgod na'r rhai sy'n cyfrif am fwyafrif y dalfeydd pysgota cyfredol yn unig.

Recommendation 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu talu costau'r rhaglen casglu data gydgysylltiedig, yn enwedig y cymorth ariannol a fydd yn cael ei gynnis i sector pysgodfeydd Cymru i gefnogi ei rôl o ran casglu mwy o ddata.

Offer pysgota

21. Roedd yr Aelodau'n falch o weld cyfeiriadau at y defnydd o offer pysgota mwy detholus ac ynghylch casglu offer pysgota diwedd oes yn y Cyd-ddatganiad Pysgota drafft. Bydd y camau hyn yn rhai pwysig i leihau sbwriel môr, ac yn benodol blastigion yn ein cefnforoedd. Roedd yr Aelodau hefyd yn falch o glywed y Gweinidog yn datgan eto ymrwymiad y Llywodraeth i leihau sbwriel môr ac maent yn cytuno â'i safbwynt bod angen cefnogi'r diwydiant i leihau ei ôl troed amgylcheddol. Fodd bynnag, roedd yr Aelodau'n bryderu am y ffaith nad yw'r Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd drafft yn cynnwys ymrwymadau, targedau na dulliau penodol ar gyfer lleihau gwastraff.

Recommendation 4. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU i sicrhau bod y Cyd-ddatganiad Pysgodfeydd yn cynnwys strategaethau a thargedau clir ar gyfer lleihau sbwriel môr.

Recommendation 5. Dylai Llywodraeth Cymru geisio datblygu strategaeth glir sy'n nodi sut y bydd yn annog arloesi ym maes dylunio offer, cefnogi'r gwaith o gasglu offer a gollwyd, a hwyluso'r gwaith o waredu ac ailgylchu offer pysgota mewn porthladdoedd.

Ymgysylltu â'r sector pysgodfeydd yn y dyfodol

22. Gwnaeth Jim Evans o Gymdeithas Pysgotwyr Cymru egluo i'r Aelodau fod datblygiad y Cyd-ddatganiad wedi cael ei arwain gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Llywodraeth y DU, drwy'r grŵp cymuned fuddiant. Dywedodd Jim hefyd ei fod yn gyfforddus gyda'r broses ymgysylltu ond y byddai wedi bod yn well ganddo pe bai rhywfaint o drafodaethau uniongyrchol, yn sicr ynghylch y cynlluniau rheoli pysgodfeydd, efallai ar lefel ddatganoledig.

23. Cefnogodd Trevor Jones o Gymdeithas Rheoli Gorchmynion Pysgodfa Afon Menai farn Jim ynghylch ymgysylltu ar y Cyd-ddatganiad. Dywedodd Trevor wrth yr Aelodau fod ganddo bryder ynghylch ymgysylltu yn y dyfodol. Dywedodd mai'r hyn a aeth â'i sylw trwy gydol y ddogfen oedd y distawrwydd cymharol ar rôl y diwydiant pysgota wrth lunio ei dyfodol ei hun yn y ddogfen.

24. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau fod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y strwythur yn iawn ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, er mwyn gwella cyd-gynhyrchu a chydweithio. Dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau: *"the Wales marine fisheries advisory group has been the main advisory group to me, and I've concluded after a period of reflection and consideration that we need to move to a different approach. I don't think we can expect one sole group to undertake all that I think we did expect of WMFAG group"*.

25. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi nod y Gweinidog i wella cydgynhyrchu. Mae'r Aelodau o'r farn y bydd ymgysylltu â'r sector yn hanfodol i lwyddiant polisi pysgodfeydd. O'r herwydd, mae'r Aelodau'n awyddus i glywed rhagor o fanylion am y grwpiau a fydd yn disodli'r Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr.

Recommendation 6. Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion y grwpiau a fydd yn olynu Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru i'r Aelodau. Dylai hyn gynnwys cylchoedd gwaith, aelodaeth, cylch gorchwyl a'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y grwpiau'n gynrychiadol.

Pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol

26. Mae Deddf Pysgodfeydd y DU yn cynnwys darpariaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol bennu faint o bysgod môr sy'n cael eu dal gan gychod pysgota Prydain, ac am faint o amser y gall cychod pysgota Prydain fod ar y môr, sef yr hyn a elwir gyda'i gilydd yn 'gyfle pysgota'. Mae'r elfen hon o'r Ddeddf wedi bod yn ddadleuol, gyda Phwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y Bumed Senedd a'r Gweinidog yn mynegi pryderon.

27. Ar 17 Mawrth, dywedodd y Gweinidog wrth yr Aelodau ei bod yn llwyr ddisgwyl "*the fisheries management operational agreement, or agreements, to address those concerns. That intention was included in the memorandum of understanding, and I will be looking to the UK Government to deliver on that commitment to set out very meaningful engagement and consultation in the determination process.*"

28. Mae'r Aelodau'n rhannu pryderon y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Mae'r Aelodau'n parhau i fod yn bryderus nad yw'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a gyhoeddwyd yn ddiweddar wedi rhoi sicrwydd ynglŷn ag arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota. Yn lle hynny, defnyddir 'cytundebau gweithredol' i fynd i'r afael â'r pryderon hirsefydlog hyn bellach, ond ni fydd gan y Senedd gyfle, na rôl, i'w hystyried cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

Recommendation 7. Rhaid i Lywodraeth Cymru fodloni'r Pwyllgor fod y mater o arfer pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i bennu cyfleoedd pysgota wedi cael ei ddatrys yn llawn. Yn benodol, rhaid i'r Gweinidog sicrhau bod manylion y cytundeb y daethpwyd iddo â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar faterion sy'n ymwneud ag arfer y pŵer ar gael i Aelodau o'r Senedd.